Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Cardiff Bay

20 Hydref 2015

Annwyl Brif Weinidog,

**Diwygio Deddfwriaeth Sylfaenol**

Yn ystod ein trafodaethau diweddar ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), gwnaethom godi pryderon gyda'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ynghylch y pwerau y mae'r Bil yn eu darparu i ganiatáu i offerynnau statudol ddiwygio'r Ddeddf bresennol drwy'r weithdrefn negyddol.

Mae'n egwyddor glir, a fynegir mewn llawer o'n hadroddiadau, fod is-ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei diwygio (a elwir yn "bwerau Harri VIII") yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol o leiaf.

Fodd bynnag, er bod rhai o Filiau Llywodraeth Cymru a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Biliau hyn wedi cydnabod y pwynt cyfansoddiadol pwysig hwn, nid yw Biliau eraill wedi gwneud hynny.

Credwn fod y mater hwn yn bryder yr ydym wedi'i grybwyll gormod yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ac mae wedi bod yn destun cryn rwystredigaeth i ni, yn enwedig pan fydd y rhesymau dros ddefnyddio'r fath weithdrefn yn nodi bod materion yn 'weinyddol' neu'n 'dechnegol', sy'n ddadleuon goddrychol iawn. Mae'n destun siom nad yw ein barn yn cael ei hadlewyrchu yn yr holl Filiau sy'n cael eu cyflwyno yn nes ymlaen yn y Pedwerydd Cynulliad.

Yn ddiweddar, gwnaethom argymhelliad y dylai'r pŵer i ddiwygio adran 110(4) o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) drwy reoliadau o dan adran 110(5) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwrthod yr argymhelliad hwn ar y sail ei fod yn bwriadu defnyddio'r pwerau mewn modd cyfyngedig i ddiweddaru'r Bil.

Yn ein barn ni, mae unrhyw newid arfaethedig i Ddeddf (waeth pa mor ddibwys mae'r newid hwn yn ymddangos) sydd wedi bod yn destun proses graffu pedwar cam gan y ddeddfwrfa yn haeddu cael ei gymeradwyo gan y ddeddfwrfa honno. Os yw mater yn dechnegol neu'n weinyddol ei natur yn unig, ni fydd defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol yn achosi unrhyw oedi.

Hefyd, yn yr achos arbennig hwn, byddai'r pŵer a ddarperir gan adran 110(5) o'r Bil yn caniatáu i adran 110(4) gael ei diwygio neu ei hail-ysgrifennu yn gyfan gwbl. Er ei bod yn bosibl nad dyna yw bwriad y Gweinidog presennol, dyna sut y gallai'r pŵer gael ei ddefnyddio gan Weinidog mewn gweinyddiaeth yn y dyfodol. Byddai dilyn y weithdrefn gadarnhaol a awgrymir ar gyfer rheoliadau o'r fath yn rhoi amddiffyniad ychwanegol i sicrhau bod hawliau'r ddeddfwrfa yn cael eu diogelu.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych. Rydym yn disgwyl trafod y mater hwn eto yn ystod ein gwaith ar etifeddiaeth y pwyllgor.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, a Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn gywir

**David Melding**
**Cadeirydd**
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.